



Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

CHEME

Centre for Health Economics and Medicines Evaluation



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



HAF 2020

Croeso i newyddlen Haf 2020 y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME)

Mae hwn yn gyfnod heriol iawn wrth i ni addasu i sefyllfaoedd anghyfarwydd yng nghanol pandemig. Rydym wedi parhau â gweithgareddau ymchwil i'r graddau y mae hyn wedi bod yn bosibl, ac yn datblygu projectau newydd mewn ymateb i COVID-19. Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar lwyddiannau a digwyddiadau diweddar, gan gynnwys:

- Ymchwil yn ymwneud â thriniaethau ac effeithiau economaidd-gymdeithasol COVID-19
- Datblygu mesur MobQoL ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd eraill
- Economeg syndrom lludded cronig
- Economeg presgripsiynu cymdeithasol, trwy ledaenu canfyddiadau ein Project Canolfan Iechyd

Ceir rhagor o wybodaeth ar ymchwil, addysgu (yn cynnwys cyrsiau byr) a gweithgareddau i gefnogi'r GIG ar ein gwefan (cheme.bangor.ac.uk) neu drwy gysylltu â'n gweinyddwr Ann Lawton (cheme@bangor.ac.uk).

Dilynwch ni ar Twitter @CHEMEBangor

Yr Athro Dyfrig Hughes a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards

Cyd-gyfarwyddwyr CHEME

YN Y RHIFYN HWN.....

Rhoi sylw i ymchwil
Digwyddiadau
Newyddion
Cyflwyniadau
Cyhoeddiadau



RHOI SYLW I YMCHWIL...

Wrth weithio gartref, rydym yn darparu cefnogaeth polisi ac ymchwil sy'n rhoi sylw i heriau COVID-19. Mae Rhiannon yn rhan o weithgor o economegwyr ledled Cymru sy'n cefnogi Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan edrych ar sut i ddod ag economi Cymru allan o'r cyfyngiadau symud gan leihau lledaeniad pellach COVID-19.

Trin gwenwyn clorocwin

Mae ymchwil gan Dyfrig wedi darparu tystiolaeth bwysig ynglŷn â diogelwch triniaethau sy'n cael eu profi i'w defnyddio gyda COVID-19.

Mae clorocwin, sef hen gyffur a ddatblygwyd i drin malaria, a hydrociclorocwin, cyffur sy'n gysylltiedig yn gemegol, a ddefnyddir i drin clefydau awtoimiwn, yn cael eu hystyried fel triniaethau posibl ar gyfer COVID-19. Awdurdododd yr FDA eu defnydd brys yn UDA, ac mae llawer o ganllawiau clinigol cenedlaethol yn gwneud argymhellion ar gyfer eu defnyddio i atal a thrin COVID-19. Fodd bynnag, mae'r ddau gyffur yn wenwynig o gymryd gorddos ohonynt. Cafwyd adroddiadau am achosion o gymryd gorddos anfwriadol ers degawdau yn y rhannau hynny o'r byd lle mae malaria'n broblem, ond mae adroddiadau am gardiotocsisedd ac achosion angheuol o wenwyno yn sgil eu defnyddio i drin COVID-19 yn dod i'r amlwg. Mae'r argymhellion cyfredol ar gyfer rheoli achosion o wenwyno yn cynnwys gweini diazepam. Fodd bynnag, mae ansicrwydd o ran a yw diazepam yn gweithio yn y cyd-destun hwn. Roedd ymchwil gan Dyfrig yn cynnwys modelau arbrofol o docsisedd clorocwin ac astudiaethau o effeithiau diazepam. Dangosodd y canlyniadau nad yw diazepam ar ei ben ei hun yn lleihau effeithiau clorocwin ar y galon, ond mae yn gwella gweithrediad y galon o'i ddefnyddio mewn cyfuniad ag adrenalin - cyffur arall a ddefnyddir i reoli tocsisedd clorocwin.

Rhagor o ymchwil sy'n gysylltiedig â COVID-19

Mae Dyfrig, Dr Colin Ridyard, Dr Ned Hartfiel a Dr Nathan Bray yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cyfres o astudiaethau sy'n ymwneud â COVID-19 (e.e. rhai sy'n cynnwys cleifion â chanserau haematolegol, y gwahaniaethau o ran profion a chymorth tramor, a defnyddio PrEP ar gyfer proffylaxis HIV). Mae Colin wedi ymuno â Menter Cofrestr Arbenigwyr COVID-19 Llywodraeth Cymru.

Economeg syndrom lludded cronig

Mae ymchwil gan Dyfrig i effaith economaidd syndrom lludded cronig (neu enseffalomyelitis myalgig), a gynhaliwyd fel rhan o Rwydwaith Ewropeidd Enseffalomyelitis Myalgig/Syndrom Lludded Cronig (EUROMENE), wedi cael ei grybwyll gan [Senedd Ewrop](#) yn eu penderfyniad i roi rhagor o arian ymchwil biofeddygol i'r maes. Nododd yr ymchwil y gallai baich blynyddol y syndrom hwn yn Ewrop fod oddeutu €40 bn, ac argymhellwyd gwneud ymchwil yn y dyfodol gyda'r nod o asesu effeithiau economaidd Enseffalomyelitis Myalgig/Syndrom Lludded Cronig. Mae hyn yn berthnasol o ystyried nifer uchel tebygol yr achosion o syndrom lludded ôl-firol ymhllith y rhai sy'n goroesi COVID-19.

Datblygu mesur MobQoL ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd eraill

Yn ddiweddar, mae Nathan, Dr Llinos Haf Spencer, Dr Lorna Tuersley a Rhiannon wedi datblygu mesur newydd ar gyfer canlyniadau wedi eu hadrodd gan gleifion am ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig â symudedd, o'r enw MobQoL. Nid yw'r EQ-5D yn gweithio'n dda i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd eraill. Mae'r MobQoL yn fesur canlyniadau newydd sy'n ymdrin ag amrediad o wahanol agweddau ar ansawdd bywyd y gall symudedd effeithio arnynt neu ddylanwadu arnynt. Mae mesur MobQoL yn cael ei ddatblygu fel rhan o gymrodoriaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Nathan.

Yng ngham nesaf y project, bydd y tîm yn treialu mesur MobQoL ac yna'n datblygu system sgorio ar sail dewis. Amcan cyffredinol y project yw cynhyrchu teclyn dibynadwy ac sydd wedi ei ddilysu i gefnogi'r gwaith o gynnal gwerthusiadau economaidd o ymyriadau gyda'r nod o wella symudedd. I ddysgu mwy am y prosiect hwn, gweler:

<https://cheme.bangor.ac.uk/mobqol>



Deall sut mae symudedd yn effeithio ar ansawdd bywyd

PaCT: Asesiad budd a risg sy'n canolbwyntio ar y claf o'r driniaeth ar gyfer metastasisau colorectol yr iau yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr

Mae Dr Emily Holmes, Dr Laura Timmis a Dyfrig yn gweithio ar broject ariennir gan North West Cancer Research (NWCR), mewn partneriaeth â chydweithwyr yng Nghanolfan Hepatobiliary Lerpwl a Chanolfan Trin Canser Gogledd Cymru. Nod yr ymchwil yw deall dewisiadau cleifion a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd wrth drin metastasisau iau canser y colon a'r rhefr. Mae nifer o driniaethau a chyfuniadau posibl gan gynnwys llawdriniaeth, cemotherapi ac abladiad. Mae penderfyniadau ynghylch triniaeth yn gofyn am gyfaddawd rhwng risgiau posibl (er enghraifft, digwyddiadau niweidiol yn sgil triniaeth) a buddion posibl (er enghraifft, goroesi ac ansawdd bywyd). Bydd gwybod beth yw'r gwahaniaeth rhwng dewisiadau triniaeth gwahanol grwpiau o gleifion yn helpu i wella'r gofal a roddir i bobl sy'n byw gyda chanser yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

DIGWYDDIADAU...

Archwilio economeg presgripsiynu cymdeithasol

Dosbarthwyd canfyddiadau astudiaeth y Ganolfan Iechyd mewn digwyddiad a gynhaliwyd ym Mae Colwyn. Roedd yr astudiaeth, a gafodd ei chyllido gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'i harwain gan Dr Carys Jones, yn gwerthuso effaith rhaglen o weithgarwch corfforol a gyflwynwyd trwy bresgripsiynu cymdeithasol ar iechyd a lles pobl hŷn a chanddynt gyflyrau iechyd cronig. Yr hyn a alluogodd y llwyddiant oedd: mentora cryf rhwng staff a chleientiaid; y cyfle i gyfranogwyr ymwneud â gweithgareddau gwella iechyd mewn amgylchedd canolfan hamdden yn hytrach na lleoliad clinigol; gwaith grŵp strwythuredig sy'n darparu rhyngweithiadau cymdeithasol tra bo hefyd yn annog cyfranogwyr i gadw at raglen 16 wythnos, a hyrwyddo hunanofal ac annibyniaeth trwy rymuso cyfranogwyr i gyd-gynhyrchu nodau iechyd a lles. Gwelodd dadansoddiad o adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad fod £5.07 o werth cymdeithasol yn cael ei gynhyrchu gan y Ganolfan Iechyd am bob £1 a fuddsoddir.



Digwyddiad lleadaenu gwybodaeth am astudiaeth yn y Ganolfan Iechyd

NEWYDDION...

Pecyn Cymorth Diogelwch a Diogelu Data

Fis Mawrth cyhoeddwyd Pecyn Cymorth Blynyddol Asesu Diogelwch a Diogelu Data, y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (8WG96). Mae hyn yn ofyniad cymharol newydd, ac mae'n rhaid cyhoeddi'r pecyn cymorth yn flynyddol i gydymffurfio â deddfwriaeth trin data megis y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Fel rhan o'r gofynion caiff Polisi Diogelwch ar Lefel Systemau, Hysbysiad Preifatrwydd ac Asesiad Effaith Diogelu Data cyffredinol y Ganolfan eu cyhoeddi ar-lein ac maent ar gael yn: <https://cheme.bangor.ac.uk/data-protection.php.en>

Dadansoddiad o feddyginiaethau cost uchel

Yn ddiweddar dyfarnwyd £150k i Dyfrig gan GIG Lloegr i edrych ar sut y mae'r nifer sy'n cymryd meddyginiaethau cost uchel yn amrywio mewn modd na ellir ei esbonio o fewn gofal eilaidd.

Treial STOP'EM

Yn ddiweddar dyfarnodd Asesiad Technoleg Iechyd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd gyllid ar gyfer Treial Llawfeddygol o Proffylacsis ar gyfer Epilepsi mewn cleifion sydd â Meningioma nad ydynt hyd yma wedi cael unrhyw ffitiau (STOP'EM). Treial yw hwn dan arweiniad yr Athro Michael Jenkinson o Brifysgol Lerpwl a Dyfrig yw'r economegydd iechyd arweiniol.

War-PATH (Gwrthgeulad Warfarin mewn Cleifion yn Affrica Is-Sahara)

Fel rhan o Grŵp Ymchwil Iechyd Byd-eang y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, dan arweiniad yr Athro Syr Munir Pirmohamed o Brifysgol Lerpwl, mae Dyfrig yn arwain astudiaeth ar gost-efeithiolrwydd gweithredu "bwndel gofal" i gael gwell rheolaeth dros wrthgeulad. Mae hefyd, gyda Dr Dan Hill-McManus, yn canfod trefnau gwell o ran dosiau warfarin.

Croesawu ein intern - Naa

Rydym yn croesawu Naa Amua Quaye, myfyrwraig feddygol, fel intern a fydd yn dysgu am economeg iechyd yn y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau.



Lorna, Naa a Rhiannon

Croeso nôl - Yankier Pijeira Perez


Mae Yankier wedi dychwelyd i'r Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau i ddechrau PhD llawn amser, dan oruchwyliaeth Dyfrig. Testun ei ddoethuriaeth fydd dyluniadau optimaidd ar gyfer astudiaethau yn dilyn sylw Asesiad Technoleg Iechyd gyda phenderfyniadau datblygu tystiolaeth.



Cyflwynodd Emily, Eifiona Wood a Dr Catrin Plumpton hyfforddiant ar dystiolaeth economaidd sy'n llywio canllawiau, cyffuriau amddifad, a modelu economaidd yn ystod Diwrnod Hyfforddi Blynnyddol Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan yng Nghaerdydd.

Cyflwynodd Emily a Dyfrig weithdy ar y gost sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion mewn cyfarfod a gynullwyd gan Dr Chris Subbe ym Miwmares.

Cyflwynodd Laura boster yng nghynhadledd Cymdeithas Oncoleg Seicogymdeithasol Prydain yng Nghaeredin ar ganfyddiadau astudiaeth ansoddol ffurfiannol ar ddewisiadau gofal cleifion a'r rhai sy'n rhoi gofal anffurfiol.



Laura yn cyflwyno ei phoster yn y gynhadledd

Rhoddodd Carys gyflwyniad ar ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig cymunedol yng nghyfarfod Gaeaf 2020 y Grŵp Astudiaethau Economegwyr Iechyd, a gynhaliwyd gan Brifysgol Newcastle. Cyflwynodd Colin boster yn yr un cyfarfod ar ddansoddiad cost cyfleustodau trwyth inswlin isgroenol parhaus ar gyfer cleifion pediatreg yn y Deyrnas Unedig sydd newydd gael diagnosis o Diabetes Math 1, tra bod Lorna wedi cyflwyno poster ar ddatblygu tariff costau a ddansoddiad o effaith cyllidebu ar ddarpariaeth cyfarpar symud a phŵer ym maes pediatreg.

Cyflwynodd Ned, a oedd yn cynrychioli Canolfan Gwerth Cymdeithasol y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau, bapur dan y teitl 'Measuring the Social Value of Woodland Activities' mewn cynhadledd yn Birmingham ar gyfer Rheolwyr Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Slade P, West H, Thomson G, Lane S, Spiby H, **Edwards RT, Charles JM**, Garrett C, Flanagan B, Treadwell M, Hayden E. STRAWB2 (Stress and Wellbeing After Childbirth): a randomised controlled trial of targeted self-help materials to prevent post-traumatic stress disorder following childbirth. *BJOG*: 2020 Jun;127(7):886-896.

Hughes DA. A comprehensive experimental toxicology assessment of the role of diazepam. *Br J Pharmacol*. 2020 May 15. <https://doi.org/10.1111/bph.15101>

Bray N, Spencer LH, Edwards RT. Preference-based measures of health-related quality of life in congenital mobility impairment: a systematic review of validity and responsiveness. *Health Econ Rev*. 2020 Apr 21;10(1):9.

Noble AJ, Snape D, Nevitt S, **Holmes EA**, Morgan M, Tudur-Smith C, **Hughes DA**, Buchanan M, McVicar J, MacCallum E, Goodacre S, Ridsdale L, Marson AG. Seizure First Aid Training For people with Epilepsy (SAFE) frequently attending emergency departments and their significant others: results of a UK multi-centre randomised controlled pilot trial. *BMJ Open*. 2020 Apr 16;10(4):e035516.

Pheby DFH, Araja D, Berkis U, Brenna E, Cullinan J, de Korwin JD, Gitto L, **Hughes DA**, Hunter RM, Trepel D, Wang-Steverding X. The Development of a Consistent Europe-Wide Approach to Investigating the Economic Impact of Myalgic Encephalomyelitis (ME/CFS): A Report from the European Network on ME/CFS (EUROMENE). *Healthcare (Basel)*. 2020 Apr 7;8(2):e88.

Hughes DA. Medication adherence-Key considerations for clinical pharmacologists. *Br J Clin Pharmacol*. 2020 Apr;86(4):628-629.

Lloyd-Williams H, Hughes DA. A systematic review of economic evaluations of advanced therapy medicinal products. *Br J Clin Pharmacol*. 2020 Mar 10. <https://doi.org/10.1111/bcp.14275>

Noyes J, Allen D, Carter C, Edwards D, **Edwards RT**, Russell D, Russell IT, **Spencer LH**, Sylvestre Y, Whitaker R, **Yeo ST**. Standardised self-management kits for children with type 1 diabetes: pragmatic randomised trial of effectiveness and cost-effectiveness. *BMJ Open*. 2020 Mar 1;10(3):e032163.

Bray N, Spencer LH, Tuersley L, Edwards RT. Development of the MobQoL patient reported outcome measure for mobility-related quality of life. *Disabil Rehabil*. 2020 Mar;28:1-0.

Mallucci CL, Jenkinson MD, Conroy EJ, Hartley JC, Brown M, Moitt T, Dalton J, Kearns T, Griffiths MJ, **Culeddu G**, Solomon T, **Hughes D**, Gamble C; BASICS study collaborators. Silver-impregnated, antibiotic-impregnated or non-impregnated ventriculoperitoneal shunts to prevent shunt infection: the BASICS three-arm RCT. *Health Technol Assess*. 2020 Mar;24(17):1-114.

Pine CM, Adair PM, Burnside G, Brennan L, Sutton L, **Edwards RT, Ezeofor V**, Albadri S, Curnow MM, Deery C, Hosey MT. Dental RECUR Randomized Trial to Prevent Caries Recurrence in Children. *J Dent Res*. 2020 Feb;99(2):168-74.

Farmer A, Allen J, Bartlett K, Bower P, Chi Y, French D, Gudgin B, **Holmes EA**, Horne R, **Hughes DA**, Kenning C, Locock L, McSharry J, Miles L, Newhouse N, Rea R, Riga E, Tarassenko L, Velardo C, Williams N, Williams V, Yu LM; SuMMiT-D Collaborative Group. Supporting people with type 2 diabetes in effective use of their medicine through mobile health technology integrated with clinical care (SuMMiT-D Feasibility): a randomised feasibility trial protocol. *BMJ Open*. 2019 Dec 29;9(12):e033504.

Jones C. Evaluating the Health Precinct. <https://cheme.bangor.ac.uk/documents/Health-Precinct-crynodeb-ymchwil.pdf>



cheme.bangor.ac.uk

cheme@bangor.ac.uk

01248 382153

@CHEMEBangor

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso

Meddyginiaethau, Ardudwy, Safle'r Normal, Prifysgol

Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ